

Adroddiad i'r:	Pwyllgor Craffu Cymunedau
Dyddiad y Cyfarfod	9 Rhagfyr 2021
Aelod Arweiniol/Swyddog	Y Cynghorydd Brian Jones, Aelod Arweiniol Gwastraff, Cludiant a'r Amgylchedd / Tony Ward, Pennaeth Priffyrdd, Cyfleusterau a Gwasanaethau Amgylcheddol
Awdur yr Adroddiad:	Matthew Hazlewood / Helen Johnson / Wayne Hope
Teitl	Ymgysylltu â Budd-ddeiliad/y Gymuned ar gyfer Cynlluniau Amddiffynfeydd Arfordirol Canol y Rhyl a Chanol Prestatyn

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

- 1.1. Mae'r adroddiad yn manylu ar weithgarwch ymgysylltu gyda budd-ddeiliaid a'r gymuned am gynlluniau amddiffyn rhag llifogydd Canol Prestatyn a'r Rhyl yn ystod 2021.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

- 2.1. I roi adroddiad diweddar am ddigwyddiad ymgysylltu â budd-ddeiliaid a'r gymuned ar gyfer cynlluniau amddiffyn rhag llifogydd Canol Prestatyn a'r Rhyl yn unol â'r argymhelliad o gyfarfod Pwyllgor Craffu Cymunedau dyddiedig 10 Rhagfyr 2020, (gweler dyfyniad o'r cofnodion isod):

Rheoli Perygl Llifogydd ar draws Sir Ddinbych

Erthygl Penderfynwyd (iv)

fe ddylid ymgysylltu gyda'r Grwpiau Ardal yr Aelodau priodol mewn perthynas â chynllun a chymau datblygu Cynllun Amddiffyn Arfordirol Canol y Rhyl a Chynllun Amddiffyn Arfordirol Canol Prestatyn yn ystod y 12 mis nesaf a dylai

casgliadau'r cam hwn o'r cynlluniau gael eu hadrodd yn ôl i'r Pwyllgor maes o law.

3. Beth yw'r Argymhellion?

- 3.1. Bod y Pwyllgor yn edrych ar sgôp a chasgliadau ymgynghoriad â budd-ddeiliaid a'r cyhoedd ar gyfer y cynlluniau, yn rhoi sylwadau ac argymhellion perthnasol i'r Cabinet (18 Ionawr 2022) ei fod yn fodlon gyda dull a chasgliadau'r ymgynghoriad.
- 3.2. Bod y Pwyllgor yn cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiadau o Effaith ar Les (ynghlwm yn Atodiadau 3a a 3b) yn rhan o'i ystyriaethau.

4. Manylion yr adroddiad

4.1. Prestatyn

Mae'r amddiffynfeydd arfordirol presennol ar hyd blaen Cwrs Golff y Rhyl tua 70 mlwydd oed ac maent mewn cyflwr gwael, sy'n golygu y gallai'r ddŵr ddod drosodd yn y 30 mlynedd nesaf.

Pe byddai'r amddiffynfeydd presennol yn methu yn y fan hon, byddai'r perygl o lifogydd mewn dros 2,000 o adeiladau yn ardal Prestatyn yn cynyddu'n sylweddol. Oherwydd y tir isel y tu ôl i'r amddiffynfeydd gallai unrhyw ddŵr llifogydd morol ledaenu dros ardal eang.

Ar ôl gwerthuso'r dewisiadau, y dewis a ffafrir (cost ddangosol £25m) yw arglawdd tir sydd wedi'i osod yn ôl o reng flaen yr amddiffynfeydd ar hyd ffin Clwb Golff y Rhyl. Wrth i ddŵr lifo dros yr amddiffynfeydd rheng flaen presennol yn ystod tywydd stormus, bydd llifddwr yn cael ei gadw ar dir y clwb golff nes iddo gael ei ryddhau yn ôl i'r môr. Mae graddfa'r cynllun arfaethedig, a llun o'r dyluniad arfaethedig i'w weld yn Atodiadau 1a ac 1b.

Clwb Golff y Rhyl, Grŵp Ardal Aelodau Prestatyn a phwyllgorau a staff Sir Ddinbych fu canolbwynt yr ymgynghoriad am y datblygiad yma. Mae digwyddiad ymgysylltu galw heibio cyhoeddus hefyd yn cael ei drefnu ar gyfer canol Rhagfyr 2021. Mae amserlen yr ymgynghoriad gyda budd-ddeiliaid, a'r ymatebion cyffredinol, i'w gweld yn Atodiad 1c.

Mae'r ymgynghoriad a'r broses ymgysylltu wedi'i thargedu wedi rhoi adborth defnyddiol iawn i ni a fydd yn cael ei gynnwys yn y cynigion terfynol. Yn ogystal â'r digwyddiadau ymgysylltu wedi'u targedu, fe ymgynghorwyd â budd-ddeiliaid proffesiynol hefyd e.e. Cyfoeth Naturiol Cymru, ac Ystâd Y Goron. Roedd gan Gyfoeth Naturiol Cymru ddiddordeb penodol yn effaith posibl y cynllun ar eu gorsaf bwmpio yng Nghlwb Golff y Rhyl, a rhoddwyd sylw i unrhyw bryderon.

4.2. **Canol y Rhyl**

Mae ardal ganolog y Rhyl (rhwng Splash Point a Pharc Drifft) ar hyn o bryd yn cael ei warchod gan amddiffynfeydd môr sydd yn dirywio. Mae'r Cyngor eisiau sicrhau bod amddiffynfeydd presennol yn cael eu newid ymhell o flaen llaw, er mwyn amddiffyn y rhan boblogaidd yma o arfordir y Rhyl rhag llifogydd ac erydu arfordirol. Yr elfennau dylunio sy'n cael eu hystyried yw:

- Gosod creigiau a deunyddiau i atal erydu, wedi'u claddu o dan y tywod presennol, ac atgyweiriadau concriid i'r morglawdd bresennol tuag at ochr ddwyreiniol ardal y cynllun arfaethedig.
- Wal gynnal â grisiau concriid i amsugno egni'r tonau, gan gynnwys grisiau mynediad i'r traeth a ramp mynediad mawr lawr i'r traeth rhwng Parc Drifft a SeaQuarium y Rhyl.
- Promenâd uwch newydd a chefn mur i amddiffyn rhag y môr yng nghefn y promenâd rhwng Parc Drifft a SeaQuarium y Rhyl.
- Lledu'r promenâd gerllaw Pentre'r Plant.

Mae graddfa'r cynllun arfaethedig, a llun o'r dyluniad arfaethedig i'w weld yn Atodiadau 2a ac 2b.

Roedd lleoliad y cynllun, a phwysigrwydd y morlin i Rhyl, yn golygu bod angen ymgynghoriad cyhoeddus yn ogystal ag ymgysylltu â phwyllgorau Sir Ddinbych, staff a budd-ddeiliaid a fyddai'n cael eu heffeithio gan y cynllun. Mae amserlen yr ymgynghoriad, ynghyd ag ymatebion, i'w gweld yn Atodiad 2c a 2d.

Mae'r ymgynghoriad a'r broses ymgysylltu wedi'i thargedu wedi rhoi adborth defnyddiol iawn i ni a fydd yn cael ei gynnwys yn y cynigion terfynol. Yn benodol, mae trafodaethau helaeth wedi'u cynnal gyda Hamdden Sir Ddinbych

Cyf a SeaQuarium y Rhyl. Yn ogystal â'r digwyddiadau ymgysylltu wedi'u targedu, fe ymgynghorwyd â budd-ddeiliaid proffesiynol hefyd e.e. Cyfoeth Naturiol Cymru, ac Ystâd Y Goron.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Mae dwy flaenoriaeth yng Nghynllun Corfforaethol Cyngor Sir Ddinbych (2017-22) sydd yn berthnasol yn yr achos yma; Yr Amgylchedd a Phobl Ifanc. Bydd cynnydd y cynlluniau yma'n bodloni uchelgais o dan flaenoriaeth yr Amgylchedd i amddiffyn preswylwyr rhag llifogydd. Dylai profiad gwaith a chyfleoedd gwaith i bobl iau fod ar gael yn ystod y cyfnodau adeiladu yn y dyfodol.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Nid oes yna oblygiadau cost yn sgil y gweithgareddau budd-ddeiliaid ac ymgynghori, gan fod gwaith datblygu ar gyfer y ddau gynllun yn cael eu hariannu gyda 100% nawdd gan Lywodraeth Cymru.

6.2. Mae Cymunedau a Chwsmeriaid a Gwella Busnes a Moderneiddio wedi bod yn cynorthwyo (e.e. gyda ddatblygu gwefannau ac arolygon).

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

7.1. Crynodeb am Brestatyn: Nod y prosiect yw lleihau'r perygl o lifogydd ym Mhrestatyn. O gymryd bod y nod yma'n cael i gyflawni, bydd yn arwain at Sir Ddinbych sydd yn fwy ffyniannus, gwydn, iach, cyfartal ac sy'n gyfrifol fyd-eang. Gweler Atodiad 3a ar gyfer yr asesiad llawn.

7.2. Crynodeb am Ganol y Rhyl: Nod y prosiect yw lleihau'r perygl o lifogydd yng nghanol y Rhyl. O gymryd bod y nod yma'n cael i gyflawni, bydd yn arwain at Sir Ddinbych sydd yn fwy ffyniannus, gwydn, iach, cyfartal ac sy'n gyfrifol fyd-eang. Gweler Atodiad 3b ar gyfer yr asesiad llawn.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

- 8.1. Prestatyn: I weld manylion y budd-ddeiliaid a phwyllgorau yr ymgynghorwyd â hwy, cyfeiriwch at amserlen yr ymgynghoriad yn adran 1c atodiad 1.
- 8.2. Canol y Rhyl: I weld manylion y budd-ddeiliaid a phwyllgorau yr ymgynghorwyd â hwy, cyfeiriwch at amserlen yr ymgynghoriad yn adrannau 2c a 2d atodiad 2.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

- 9.1. Nid oes yna oblygiadau ariannol uniongyrchol sy'n gysylltiedig â chyfnodau ymgysylltu y prosiectau hyn, er fe fydd y ddau brosiect angen buddsoddiad ariannol sylweddol gan y Cyngor os byddant yn bwrw ymlaen.

10. Risgiau

- 10.1. Mae yna risg na fydd y Pwyllgor yn cefnogi dulliau ymgynghori'r ddau gynllun, ac fe allai hyn arwain at oedi cyflwyno achosion busnes y cynlluniau hyn i'r Cabinet, Cyngor a Llywodraeth Cymru. Fe allai hyn beryglu ein gallu i gael arian ar gyfer 85% o gost y ddau gynllun gan Lywodraeth Cymru, oherwydd bodolaeth terfynau amser ariannol.

11. Pŵer i wneud y penderfyniad

- 11.1. Mae pwerau'r Pwyllgor Craffu i wneud yr argymhellion mewn cysylltiad â'r mater yma i'r Cabinet yn unol ag Adran 21 Deddf Llywodraeth Leol 2000 ac fel yr amlinellir yn Adrannau 7.2, 7.3 a 7.4.2(d) Cyfansoddiad Cyngor Sir Ddinbych.